## Anifeiliaid tebyg i fwydod

SGÔR IECHYD Y PWLL 1



### Larfâu gwybed

- Coch, gwyrdd, brown neu dryloyw
- Symud fel cynrhon



### Llyngyr Lledog

- Yn aml yn llwyd neu ddu
- Symud trwy lithro o gwmpas



### Cynrhon cynffon-fain (larfau pryfed hofran)

- Tiwb anadlu tenau hir
- Yn byw yn y llaid



### Mwydod

- Tebyg i fwydod



### Gelenod

- Sugnwyr ar y ddau ben
- Yn symud drwy ymestyn y corff

## Malwod

SGÔR IECHYD Y PWLL 1



(a)



(b)

- Cragen galed yn gorchuddio'r corff
- Gall y gragen fod yn (a) bigfain, (b) yn dorch fflat
- Gall eu maint amrywio'n fawr

## Anifeiliaid eraill

Noder: Efallai y dowch o hyd i'r anifeiliaid hyn wrth wneud eich arolwg. Er eu bod yn anifeiliaid diddorol iawn, nid ydynt yn rhoi gwybodaeth am iechyd y pwll, felly nid oes sgôr ar eu cyfer.





### Gwybed Dŵr

- Anifail bychan iawn fel corryn

### Chwannen Ddŵr (*Daphnia*)

- Anifail bychan iawn
- Yn aml yn niferus o ran rhif



### Corryn Dŵr

- Swigen arian dros y corff
- Yn byw o dan y dŵr

# Canllaw Adnabod
# **Infertebratau'r pwll**

Gallwch ddefnyddio'r canllaw hwn ar gyfer **Arolwg Dŵr OPAL**

OPAL CRAFFU AR NATUR

## Larfâu Pryf Pric mewn Câs

SGÔR IECHYD Y PWLL 10



- Corff mewn câs; y pryf yn cuddio wrth aflonyddu arno
- Câs wedi'i wneud o gerrig mân, gronynnau tywod neu ddeunydd planhigion
- Chwiliwch am briciau sy'n cropian!

## Larfâu Gwas y Neidr

SGÔR IECHYD Y PWLL 10



- Corff tew
- Pen onglog
- Dim cynffon ond 5 pigyn byr ar ddiwedd y corff

## Larfâu Pryf Pric heb Gâs


SGÔR IECHYD Y PWLL 10



- Yn debyg i lindysyn tenau
- 3 phâr o goesau yn y blaen
- Bachau ym mhen ei gorff
- Cropian yn hytrach na nofio

## Larfâu'r Fursen

SGÔR IECHYD Y PWLL 10





- Pen onglog
- 3 chynffon siâp deilen (efallai y bydd wedi colli un neu ragor)

Silwét yn dangos maint mwyaf llawn dwf. Gall yr anifeiliaid fod yn llai na hyn. Os nad oes silwét, yna mae'r llun yn adlewyrchu ei faint go iawn. Larfâu yw pryfed dyfrol ifanc

Mae angen i infertebratau sydd â sgôr uwch gael dŵr glân i fyw ynddo

## Larfâu Pryf y Wernen

SGÔR IECHYD Y PWLL 10







- Un gynffon
- Corff taprog
- Safnau fel pinsiwrn
- Tagellau mân ar hyd y corff


## Larfâu Cleren Fai a Phryf y Cerrig

SGÔR IECHYD Y PWLL 5




### Larfâu Cleren Fai

- 3 chynffon denau
- Nofio gan wibio o gwmpas




### Larfâu Pryf y Cerrig


- 2 gynffon denau
- Mae'n symud o gwmpas drwy gropian fel arfer

## Chwilod Dŵr

SGÔR IECHYD Y PWLL 5









- Câs adenydd sgleiniog caled yn amgylchynu'r corff
- Siâp hirgrwn, 6 choes
- Efallai bydd swigen ar y cefn
- Mae siâp y chwilen ddŵr ysglyfaethus yn gallu bod yn llai llyfn



### Larfâu Chwilen y Dŵr





- Mae'r larfâu'n amrywiol iawn; mae gan rai bennau amlwg; safnau fel pinsiwrn, cyrff taprog a choesau amlwg
- Mae gan lawer ddwy gynffon (gofalwch nad Cleren Fai wedi colli ei chynffon ydyw)
- Mae eraill yn debycach i lindys gyda choesau byr iawn a chyrff tew

## Pryfed y Dŵr

SGÔR IECHYD Y PWLL 5



### Cychwyr Cefnwyr

- Yn nofio ar eu cefnau, yn agos iawn i arwyneb y dŵr
- Yn defnyddio coesau hir-flewog fel rhwyfau



### Cychwr Dŵr Bach

- Nofio ar eu bol
- Câs yr adenydd yn edrych yn ddu/frown ond o edrych yn agos maen nhw'n frith neu'n streipïog



### Sgorpion y Dŵr

- Pryf tywyll sy'n cropian
- Y coesau blaen fel pinsiwrn
- Tiwb anadlu hir a thenau ar gefn y corff (yn y rhai llawn dwf)




### Pryf Brigyn

- Corff hir tenau
- Tiwb anadlu tenau ar y cefn

## Rhiain y Dŵr

SGÔR IECHYD Y PWLL 5



- Sglefrio ar wyneb y dŵr
- 4 coes hir yn sglefrio a 2 goes fer ar y blaen
- Pâr o deimlyddion

## Berdys y Dŵr

SGÔR IECHYD Y PWLL 5



- Corff gwastad, crwm
- Teimlyddion hir
- Gall ymddangos yn dryloyw
- Yn nofio'n gyflym ar ei ochr

## Gwrachen y dŵr

SGÔR IECHYD Y PWLL 1



- Yn edrych fel pryf lludw
- Corff gwastad fflat
- Yn symud trwy gropian



Ffotograffau: Cyril Bennett, Steve Cham, Niels Sloth (Biopix), Simon Pawley (FBA), Jeremy Biggs, Roberto Scherini (www.linea.it), Robert Zoralski (www.insects.pl), Alexander Grau and David Kohler (heteropterologie.de), Malcolm Storey (www.bioimages.org.uk), Simon Turner, Morten DD Hansen, Neil Rose, Roger Key, Brian Jones, Tim Apps, Michael R Clapp (nwnature.net), Frank Köhler (www.koleopterologie.de).
© OPAL 2015.
Cedwir pob hawl.

CRONFA LOTERI FAWR
BIG LOTTERY FUND
ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

